Llongyfarchiadau i Jason Davies, Rhys Teifi Davies, Rhys Dobson a Sion James ar gael eu dewis i garfan pêl-droed dan 11 oed Aberystwyth. Pob hwyl i Jason ar gael ei ddewis yn aelod o dîm y cylch.

Diolch

Dymuna Eirian Morgan ddiolch i Brifathro, athrawon a phlant ysgol Gynradd Penrhyn-coch am eu rhodd haelionus ar ei hymadawiad yn ddiweddar. Yn arbennig hoffai ddiolch i gyn-brifathro'r ysgol, Mr R.T. Evans am ei eiriau caredig yn ystod y prynhawn. Treuliodd flynyddoedd hapus yn gweithio gydag ef a'r athrawon, a mawr ei diolch iddynt. Hoffai hefyd ddiolch i staff y gegin, Liz, Frances, Prysorwen, Barbara a Kay am eu rhodd hwythau, a phob llwyddiant i ysgol Penrhyn-coch yn y dyfodol.